



Y Darian Ymwybodol o Bellter

Pecyn Cyfathrebu

Cefndir

Mae pawb yn gyfrifol am gadw pellter cymdeithasol yn barhaus. Er bod y cyhoedd wedi gwneud ymdrech gydwybodol iawn i lynu wrth y canllawiau, fel gyda phopeth, mae pobl yn dechrau diflasu. Oherwydd hyn, ynghyd â'r pryder cynyddol sydd gan lawer o bobl am ddal y feirws, mae'r gallu i atgoffa pobl yn gwrtais wedi cael ei groesawu mewn sawl lleoliad.

Nod 'Ymwybodol o Bellter' yw darparu'r gallu i atgoffa pobl yn gwrtais i gadw pellter (lle bo modd) drwy ddefnyddio symbolaeth gyson y gellir ei hadnabod ar unwaith. Mae gan unigolion ddealltwriaeth o gyfrifoldeb personol a pharch at eraill. Yr amcan yw cefnogi grwpiau agored i niwed, ond mae angen cymdeithasol ehangach hefyd, felly mae cynwysoldeb wedi bod yn elfen allweddol o'n hymagwedd.

Ymwybodol o Bellter

'Ymwybodol o Bellter' yw'r enw rydym wedi cytuno arno ar gyfer y fenter hon a arweinir gan y GIG. Nod yr ymgyrch yw atgoffa pobl yn gwrtais i gadw pellter parchus rhyngddynt ag eraill lle bynnag y bo modd. Ar y sleidiau canlynol, rydym yn darparu enghreifftiau o iaith ac ymadroddion y gallwch eu defnyddio wrth hyrwyddo neu siarad am y symbol i'ch cynulleidfaeodd chi.

Rydym yn ymwybodol y bydd negeseuon perthnasol yn amrywio gan ddibynnu ar y gynulleidfa. Fodd bynnag, credwn ei bod hi'n bwysig bod y neges yn parhau'n gyson ar draws sefydliadau. Ar y sleidiau/tudalennau canlynol, byddwn yn amlinellu'r negeseuon rydym yn eu hargymell. Byddwn hefyd yn darparu enghreifftiau o negeseuon eilaidd y gallech benderfynu eu mabwysiadu.

Tarian Ymwybyddiaeth o Bellter

Rydym wedi creu eicon gweledol a gynlluniwyd i'w wisgo neu ei arddangos. Mae'n gweithredu fel arwydd i eraill fod yr unigolyn sy'n ei wisgo/y sefydliad sy'n ei arddangos yn ymwybodol o'r angen i gadw pellter, ac yr hoffai i eraill gadw pellter parchus lle bo modd.

NI fwriedir iddo adnabod rhywun sydd wedi bod ar y rhestr warchod neu sydd efallai â chyflwr iechyd penodol.



Negeseuon Allweddol

Wrth hyrwyddo defnydd o'r darian neu esbonio'r syniadau sy'n sail iddi, boed mewn deunyddiau argraffedig, ar eich gwefan, yn y cyfryngau cymdeithasol neu'n bersonol, dylech gyfeirio at y geiriau 'ymwybodol o bellter' pryd bynnag y bo modd, gan ddefnyddio iaith megis:

Ydych chi'n ymwybodol o bellter?

Diolch i chi am fod yn ymwybodol o bellter

Byddwch yn ymwybodol o bellter

Rwy'n ymwybodol o bellter

Rydyn ni'n ymwybodol o bellter

Mae ein gweithlu'n ymwybodol o bellter

Byddwch yn ymwybodol o bellter. Cadwch bobl yn ddiogel

Cadwch bobl yn ddiogel drwy fod yn ymwybodol o bellter

#YmwybodoloBellter

#ByddwchynYmwybodoloBellter

#GweithredwchynYmwybodoloBellter

#AtogffaCwrtais

Gellir defnyddio'r ymadroddion hyn hefyd ar y cyd â logo'r darian ar eitemau i'w gwisgo
(e.e. cortyn gwddf)

Negeseuon Eilaidd

Iaith eglurhaol syml arall a fydd yn helpu pobl i ddeall pwrpas y symbol a'r cais sy'n cael ei wneud. Mae croeso i chi deilwra'r negeseuon eilaidd i'ch cynulleidfaoedd chi.

Rhowch le i mi

Cadwch eich pellter

Rhowch le i mi. Cadwch fi'n ddiogel

Helpwch fi i deimlo'n ddiogel. Parchwch fy lle personol

Enghreifftiau o Gyfathrebu

Canllawiau Dylunio


Mae'r enghreifftiau gweledol canlynol yn ganllaw i sut gall deunyddiau hyrwyddo, megis posterï a negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol, edrych a swnio.

Rydym yn gofyn i chi lynu wrth ein detholiad o liwiau lle bynnag y bo modd, gan ddefnyddio ystod lawn y tarianau lliw sydd ar gael. Dylid defnyddio ffurfdeipiau mae'n hawdd eu darllen a'u defnyddio.

Enghraifft o boster hyrwyddo

Byddwch yn ymwybodol o bellter. Cadwch eraill yn ddiogel.

Wrth i ni barhau i ymateb i fygythiad parhaus y coronafeirws, byddwch yn wylriadrus a chadwch bobl yn ddiogel drwy gadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo modd.




#BeDistanceAware



Byddwch yn ymwybodol o bellter. Cadwch eraill yn ddiogel.

Efallai y byddwch yn dechrau gweld pobl mewn lleoedd amrywiol yn arddangos y darian Ymwybodol o Bellter. Y bwriad yw dangos eu bod yn ystyriol o bellter cymdeithasol a hoffent i bobl eraill wneud yr un peth.



#BeDistanceAware



Poster i atgoffa ar gyfer y gweithle

Ydych chi'n
ymwybodol o
bellter?



#BeDistanceAware



Diolch am fod
yn ymwybodol o
bellter



#BeDistanceAware



Posteri atgoffa ar gyfer y gweithle

**Diolch am fod
yn ymwybodol o
bellter**



#BeDistanceAware



**Ydych chi'n
cadw pellter
cymdeithasol?**



#BeDistanceAware



Templed ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol

Enghraifft o Drydar A:

@EichElusen wrth i ni barhau i wynebu bygythiad COVID-19 cadwch bellter cymdeithasol o hyd. Gwisgwch y darian. Byddwch yn **#DistanceAware**

Enghraifft o Drydar B:

@Eich elusen Ydych chi'n ymwybodol o bellter? Dyma'r darian ymwybodol o bellter, cadwch y pellter priodol rhyngoch chi a'r gwisgwyr. Os hoffech chi gael un, cliciwch y ddolen.

#DistanceAware

E Enghraifft
@Enghraifft Follow

Wrth i ni barhau i wynebu bygythiad COVID-19 cadwch bellter cymdeithasol o hyd. Byddwch yn **#DistanceAware**



1:14 PM - 26 Feb 2019

1 Retweet 11 Likes

1 1 11

E Add another Tweet

Templed Neges yn y Cyfryngau Cymdeithasol - Cysylltiedig

@EichElusen wrth i ni barhau i wynebu bygythiad
COVID-19 cadwch bellter cymdeithasol o hyd. Byddwch
yn **#DistanceAware**

E Enghraifft
@Enghraifft Follow

Wrth i ni barhau i wynebu bygythiad COVID-19
cadwch bellter cymdeithasol o hyd. Byddwch yn
#DistanceAware



1:14 PM - 26 Feb 2019

1 Retweet 11 Likes

1 1 11

E Add another Tweet

Diolch yn fawr

Os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau mae croeso i
chi gysylltu â ni

Dr Helen Iloff
iliffha@doctors.org.uk

Cydnabyddiaeth Ddylunio

www.Rob-Joe.com
sayhellotorobandjoe@gmail.com

www.dangaff.com
dan.g.gaffney@gmail.com